**Galw am bypedwyr ar gyfer *Meet Fred*, cynhyrchiad Hijinx ar y cyd â Blind Summit.**

*Mae pyped clwt yn ymladd rhagfarn bob dydd. Unig ddymuniad Fred yw bod yn rhan o'r byd go iawn, cael swydd a chwrdd â merch, ond pan yw'n wynebu'r bygythiad o golli ei LBP (Lwfans Byw Pypedwaith) mae bywyd Fred yn dechrau ffrwcsio'n lân ac yntau'n colli rheolaeth ar y bywyd hwnnw.*

Sioe theatr i oedolion gyda phyped fel ei phrif gymeriad yw *Meet Fred*. Caiff y sioe ei pherfformio gan gast o 7:3 pypedwr bunraku sy'n rheoli Fred a 4 actor, 3 ohonynt yn artistiaid sydd ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.

Bu'r sioe yn llwyddiant ysgubol yn yr *Edinburgh Festival Fringe* yn 2016, gyda phob perfformiad yn llawn hyd yr ymylon ac mae *Meet Fred* wedi bod yn teithio'r byd ers hynny. Hyd yn hyn cafodd ei pherfformio dros 200 o weithiau, mewn 109 o ddinasoedd ar draws 17 o wledydd ar 3 o gyfandiroedd ac mae'r galw mawr am y sioe yn parhau. Felly, rydym yn chwilio am bypedwyr Bunraku profiadol ar gyfer cyfleoedd teithio rhyngwladol parhaus yn nhymor yr Hydref 2019 ac i mewn i 2020.

**Pypedwr Bunraku - Pen**
Gwryw - 25+ oed
Mae'r pypedwr pen yn rheoli pen a braich chwith Fred, ef yw llais Fred.
Mae profiad o bypedwaith bunraku ar y pen yn hanfodol.
Trwydded yrru lân gyflawn yn ddymunol ynghyd â'r hyder i yrru y tu allan i'r DU.
Ar gael i fynd ar daith yn nhymor yr Hydref 2019.

**Pypedwyr Bunraku – Cefn/Traed**
Heb fod yn rhyw benodol.
Profiad o bypedwaith bunraku yn ddymunol.
Mae'r rolau hyn yn cael eu castio ar gyfer Hydref 2019 ar hyn o bryd; er hynny mae gennym ddiddordeb mewn cynyddu ein cronfa o bypedwyr posibl ar gyfer teithiau yn y dyfodol.
Trwydded yrru lân gyflawn yn ddymunol ynghyd â'r hyder i yrru y tu allan i'r DU.
Wedi'ch lleoli yng Nghaerdydd os yn bosib.

**Dyddiadau taith 2019**

**23$^{ain}$ – 28$^{ain}$ Medi** Caerdydd: ymarferion a pherfformiadau (Iau, Gwener, Sadwrn) yn Theatr y Sherman
**01-07 Hyd** Tsieina *** I'w gadarnhau ***
**10-13 Hydref** Budapest, Hwngari
**19-21 Hydref** Brunswick, yr Almaen
**10-13 Tachwedd** Neuchatel, Y Swistir

**15-20 Tachwedd** Gothenburg, Sweden

Sylwer, os ydych ar gael, efallai y bydd angen i chi rannu'r gyrru gyda'n technegydd ar gyfer un rhan o'r daith y naill ochr neu'r llall i fwciadau.

Cynhelir clyweliadau ar 15fed Gorffennaf yng Nghaerdydd.
Yn anffodus ni allwn gynnig talu treuliau am fynychu clyweliadau.
Oherwydd bod oedolion sy'n agored i niwed yn aelodau o'r cast, bydd gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn un o amodau'r swydd.
Mae Hijinx yn Rheolwyr Moesegol ITC.

Taliad:
Wythnos lawn (4-6 diwrnod) - £510
Rhan o wythnos (hyd at 4 diwrnod) - £100 y dydd
Darperir yr holl deithio, llety, lwfans dyddiol (neu brydau lle bo'n briodol)

I wneud cais, anfonwch eich proffil *Spotlight* neu *CV* perfformio cyfredol at ellis.wrightbrook@hijinx.org.uk erbyn canol dydd ar ddydd Gwener 21ain Mehefin ynghyd â chyflwyniad e-bost byr yn nodi pa rôl y mae gennych ddiddordeb ynddi.

Cysylltir â phob ymgeisydd erbyn 28ain Mehefin. Os cewch eich gwahodd i glyweliad, cynhelir gweithdy grŵp 45 munud yn y bore ar gyfer pawb fydd yn cael clyweliad, a bydd hyn yn cael ei ddilyn gan berfformiadau unigol o ddarn byr o'r sgript, gyda Fred, ochr yn ochr ag un o'n hactorion. Darperir detholiadau o'r sgript cyn y clyweliad. Yna, bydd galwadau yn ôl yn digwydd yn y prynhawn ar gyfer cyfweliad byr.

Cynhelir y gweithdai a'r clyweliadau gyda'r Cyfarwyddwr Ben Pettitt-Wade ac aelodau'r cast.
Cynhelir y cyfweliadau gyda'r Cyfarwyddwr, Ben Pettitt-Wade a'r Cynhyrchydd, Ellis Wrightbrook.

---

**Call out for puppeteers in Meet Fred, a Hijinx production in association with Blind Summit.**

*A cloth puppet fights prejudice every day. Fred just wants to be part of the real world, to get a job and meet a girl, but when threatened with losing his PLA (Puppetry Living Allowance), Fred's life begins to spiral out of his control.*

Meet Fred is an adult theatre show with a puppet as its main character. Performed by a cast of 7: 3 bunraku puppeteers to control Fred and 4 actors, 3 of whom are artists with a learning disability and/or autism.

It was a sell-out and critical hit at Edinburgh Festival Fringe in 2016 and has been touring the world ever since. To date it has been performed over 200 times, in 109 cities across 17 countries on 3 continents and the show continues to be in high demand. Therefore, we are looking for experienced Bunraku puppeteers for continued international touring opportunities in Autumn 2019 and into 2020.

**Bunraku Puppeteer - Head**
Male – age 25+
The head puppeteer controls Fred's head and left arm, he is the voice of Fred.
Experience of bunraku puppetry on the head essential.
Full clean driving licence desirable and confidence to drive outside the UK.
Available for touring Autumn 2019.

**Bunraku Puppeteers – Back/Feet**
Non gender specific
Experience of bunraku puppetry desirable
These roles are currently cast for Autumn 2019, however we are interested in increasing our pool of potential puppeteers for future touring.
Full clean driving licence desirable and confidence to drive outside the UK.
Cardiff base desirable.

**2019 tour dates**

**23rd – 28th Sept** Cardiff rehearsals and performances (Thurs, Fri, Sat) at Sherman Theatre
**01-07 Oct** China ***TBC***
**10-13 Oct** Budapest, Hungary
**19-21 Oct** Brunswick, Germany
**10-13 Nov** Neuchatel, Switzerland
**15-20 Nov** Gothenburg, Sweden

Please note, if you are available you may be required to share driving with our technician for one leg either side of bookings.

Auditions will be held on the 15th July in Cardiff.
Unfortunately we cannot provide expenses to attend auditions.
Due to vulnerable adults being members of the cast a DBS check will be a condition of the engagement.
Hijinx are ITC Ethical Managers.

Payment:
Full week (4-6 days) - £510
Part week (up to 4 days) - £100 per day
All travel, accommodation, per diems (or meals where appropriate) provided

To apply, please send your Spotlight profile or an up to date performance CV to ellis.wrightbrook@hijinx.org.uk by midday on Friday 21st June with a brief email introduction that states which role you are interested in.

All applicants will be contacted by the 28th June. If invited to interview, there will be a 45-minute group workshop for all auditionees in the morning, followed by individual performances of a short excerpt from the script, with Fred, alongside one of our actors. Excerpts of script will be provided prior to audition. There will then be recalls in the afternoon for a short interview.

Workshops and auditions will be with Director Ben Pettitt-Wade and members of the cast.
Interviews will be with Director Ben Pettitt-Wade and Producer Ellis Wrightbrook.